Mae paragraff 16.1 yn dweud y bydd cais ymgeisydd fel rheol yn cael ei wrthod lle mae ganddo fwy nag un gollfarn am droseddau sydd yn dangos diffyg parch at eiddo, oni bai bod 10 mlynedd wedi pasio ers y gollfarn ddiweddaraf.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y gollfarn byrgleriaeth (1982) a dwyn (1988) yn dangos patrwm o aildroseddu yn ymwneud ag anonestrwydd, ac felly diffyg parch at eiddo. Fodd bynnag, gan fod y diweddaraf o'r collfarnau hyn wedi digwydd 30 mlynedd yn ôl, nid oedd y gwaharddiad o dan baragraff 16.1 o'r Polisi yn sefyll ac felly nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried y ddwy gollfarn am yfed a gyrru ystyriwyd paragraff 11.2 o'r Polisi, cyfrifwyd bod gwaharddiad y gollfarn ddiweddaraf wedi dod i ben Ebrill 2010, gyda'r drwydded wedi ailsefydlu ar 3 Ebrill 2010. Cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd wedi cwblhau'r cwrs a fyddai wedi cwtogi hyd y gwaharddiad. Ychydig dros 8 mlynedd sydd ers Ebrill 2010 ac felly o dan yr amgylchiadau, nid oedd 10 mlynedd wedi pasio ers ailsefydlu'r drwydded ac felly roedd y gwaharddiad o dan baragraff 11.2 yn berthnasol i'r cais hwn.

Er mai canllaw yn unig yw'r polisi gyda'r Is-bwyllgor yn ymwybodol bod modd gwyro oddi wrtho os oes cyfiawnhad dros wneud hynny, wedi iddynt ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd roeddynt yn anghyfforddus gyda'r 2 gollfarn o yfed a gyrru. Er mai o drwch blewyn yr oedd dros y trothwy o yfed a gyrru ar y ddau achlysur nid oedd hyn yn resymau i'w hystyried. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd yn anghyfforddus gyda'r syniad o roi trwydded, yn groes i bolisi, i rywun gyda 2 gollfarn am yfed a gyrru lle mae dros 18 mis i fynd hyd ddeng mlwyddiant y gwaharddiad diwethaf.

Er bod gan yr Is-bwyllgor gydymdeimlad gyda'r ymgeisydd, roedd yr aelodau o'r farn bod y cais hwn wedi cael ei gyflwyno ychydig yn rhy fuan. Byddai'r tebygolrwydd o gael trwydded wedi bod yn uwch petaech wedi gohirio eich cais o tua 6-9 mis.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd a bod hawl ganddo i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor o fewn cyfnod o 21 diwrnod o dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:20pm a daeth i ben am 4 :00pm

Dechreuodd y cyfarfod am 3.25 y.h. a daeth i ben am 4.10 y.h.

**CADEIRYDD**